Afasic GeirfA

Dyspracsia/apracsia

Beth yw dyspracsia/apracsia?

Mae **dyspracsia'n** disgrifio anhawster i reoli a chydlynu patrymau symud a ddysgwyd, lle na cheir niwed i gyhyrau na nerfau. Mae apracsia'n disgrifio colli'r gallu i gyflawni patrymau symud rheoledig gwirfoddol, er nad oes niwed na gwendid i'r nerfau na'r cyhyrau. Gellir defnyddio'r naill derm neu'r llall, er y defnyddir y term 'dyspracsia' yn fwy cyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

Gellir defnyddio'r ddau derm gyda'r rhagddodiad 'datblygiadol' wrth ddisgrifio'r cyflwr mewn plant, er enghraifft

- apracsia lleferydd ddatblygiadol
- dyspracsia geiriol datblygiadol
- dyspracsia ynganiadol datblygiadol.

Mae dyspracsia ynganiadol/geiriol yn gyflwr lle caiff y plentyn anhawster i wneud yr union symudiadau a ddefnyddir i gynhyrchu iaith lafar neu i'w cydlynu er nad oes unrhyw niwed i'r cyhyrau nac i'r nerfau. Efallai y caiff plant sydd â dyspracsia anhawster i gynhyrchu synau unigol yn ogystal â chydlynu trefn y synau sy'n angenrheidiol ar gyfer llunio geiriau, neu gydlynu'r rhediadau sy'n gynyddol gymhleth a ddefnyddir mewn geiriau, ymadroddion a brawddegau.

Efallai y bydd dyspracsia'n bresennol mewn graddau amrywiol o ysgafn i ddifrifol mewn plant gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o glinigwyr yn cytuno ar y nodweddion diagnostig canlynol ac efallai y bydd y plentyn yn dangos un neu fwy o'r nodweddion hyn:

1 **anhawster i reoli cyfarpar lleferydd.**
Efallai y bydd y plentyn yn cael anhawster i wneud a chydlynu'r union symudiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu iaith lafar gywir. Mae'r cyfarpar lleferydd yn cynnwys

- y gwefusau
- y tafod
- y daflod feddal (parhad meddal y daflod galed – taflod y genau – sy'n cau ceudod y trwyn ar gyfer chwythu, sugno, llyncu a siarad)
- laryncs (y corn gwddf)
- y cyhyrau a ddefnyddir i reoli anadl ar gyfer siarad
- y cyhyrau a ddefnyddir ar gyfer mynegiant yr wyneb.

Mae'n bosibl y bydd plant yn cael anhawster i fwydo eu hunain hefyd.

2 **anhawster gyda chynhyrchu swn mewn iaith lafar**, gan ddefnyddio nifer cyfyng o synau a'u cynhyrchu'n anghyson

3 **anhawster gyda rhoi trefn ar synau er mwyn gwneud gair**

4 **anhawster gyda rheoli anadlu a rheoli cyflymder, rhythm ac uchder** ar gyfer iaith lafar. Efallai y ceir anhawster hefyd i gydbwyso cyseinedd trwynol a chynnal llais o ansawdd dda.

Datblygu iaith

Fel arfer bydd dealltwriaeth y plentyn o'r hyn a ddywedir yn gymharol normal. Bydd y rhan fwyaf o'r plant hyn, fodd bynnag, wedi bod yn araf yn dechrau siarad, gan ddangos datblygiad araf o ran baldorddi, ynganu eu geiriau cyntaf ac i uno geiriau. Efallai y byddant yn parhau i ddangos tystiolaeth eu bod yn cael anhawster gyda hyd brawddegau a brawddegau cymhleth. Efallai y bydd problemau gyda mathau penodol o ramadeg (fel berfau cynorthwyol, amserau'r ferf neu ragenwau) yn parhau am gyfnod hir.

Bydd y therapydd lleferydd ac iaith, sef y gweithiwr proffesiynol a fydd yn gyfrifol am asesu a thrin y cyflwr hwn, yn gwirio ac yn monitro pob agwedd ar sgiliau datblygu'r plentyn o ran lleferydd ac iaith.

Bydd angen cynnal asesiad medrus a chynllunio rhaglen therapi ar gyfer plentyn sydd â dyspracsia. Bydd cynnydd yn araf ac yn dibynnu ar yr help a geir gan eraill.

Cyfeiriadau

Byers-Brown, B ac Edwards, M (1989), *Developmental Disorders of Language,* Whurr

Stackhouse, J (1992), Developmental Verbal Dyspraxia: a review and critique, yn *European Journal of Disorders of Communication* 27 (1), t. 19-34

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Crary, M (1993), *Developmental Motor Speech Disorders*, Whurr

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Nam iaith penodol (1)
- Ynganiad (10)

Sefydliadau eraill a all helpu

Dyspraxia Foundation
8 West Alley, Hitchin, Hertfordshire SG5 1EG
Ffôn: 01462 454986

Ysgrifennwyd gan Veronica Connery, therapydd lleferydd ac iaith, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.